

Tyfu Cymru: Dalen Cyngor Technegol Rheoli Chwyn mewn Planhigion Addurniadol

Rheolaeth Ddiwylliannol – Gwell Rhwystro'r Clwy na'i Wella

Yr amddiffyniad cyntaf y dylech ei weithredu yn erbyn chwyn yw rheolaethau diwylliannol; ni fydd unrhyw chwynladdwyr a raglennir yn gweithio'n effeithiol heb hylendid da yn y feithrinfa. Bydd unrhyw chwyn sefydledig sy'n cael cyfle i hadu o amgylch y cnwd yn creu pwysau enfawr a all leihau effeithiolrwydd chwynladdwyr. Dylid cadw ardaloedd heb gnydau a llwybrau yn lân ac yn glir o chwyn a allai hadu. Mae gwaith blaenorol wedi dangos bod system ychydig ac yn aml o chwynnu â llaw yn wythnosol yn fwy effeithiol, ac yn galw am lai o ymdrech yn gyffredinol o gymharu â chwynnu cyfnodol; y nod yn y pen draw yw osgoi unrhyw chwyn rhag hadu. Mewn ardaloedd cynhyrchu dylid cadw plygiau a leininau yn lân a dylid cael gwared ar unrhyw chwyn cyn potio. Mae angen cynnal a chadw gorchuddion gwelyau plastig gweuedig (e.e. MyPex) a gosod rhai newydd pan fydd angen. Dylai fod gan welyau systemau draenio da er mwyn sicrhau nad oes unrhyw lysiau'r afu a mwsogl, a fydd yn helpu i atal unrhyw chwyn pellach rhag sefydlu. Gellir chwistrellu gwelyau graean a thywod gyda chwynladdwyr gweddilliol fel Chikara cyn gosod cnydau ar y gwelyau. Gall Chikara ddarparu hyd at bum mis o reolaeth dros chwyn gweddilliol, ac fel arfer mae'r rhan fwyaf o chwynladdwyr gweddilliol yn weithredol am hyd at ddeuddeg wythnos. Dylech gynllunio eich amserlen ddyfrhau er mwyn cynnal rheolaeth sych ac osgoi unrhyw ddyfrhau gormodol er mwyn lleihau trwytholchi chwynladdwyr gweddilliol yn ormodol a lleihau pwysau chwyn ar gyfer rhywogaethau megis yr helygen (*Salix*) sydd angen arwynebau llaith i egino. Dylech gadw hen stoc a stoc newydd ar wahân, oherwydd mae gan stoc hŷn fwy o chwyn fel arfer, sy'n gallu lledaenu'n rhwydd. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ystyried am ba hyd yr ydych am gadw hen stoc oherwydd gall y costau o lanhau hen stoc fod yn uwch na'r costau o'u gwaredu a dechrau eto o'r newydd.

Chwynladdwyr Gweddilliol

Mae AHDB Horticulture wedi ariannu ymchwil ers blynnyddoedd lawer ar sgrinio diogelwch cnydau o ran chwynladdwyr gweddilliol – mae gwybodaeth am ddiogelwch cnydau ar gael yng nghyhoeddiadau AHDB, er enghraifft "Practical weed control for nursery stoc". Wrth ddefnyddio chwynladdwyr yn unol ag EAMU (Ymestyn yr Awdurdod ar gyfer Mân Ddefnyddiau), ac nad yw diogelwch cnwd yn hysbys, fe'ch cynghorir i brofi ardal fach o'r cnwd gyda'r chwistrell, fel prawf o ddiogelwch y cnwd cyn ei ddefnyddio'n helaeth.

Opsiynau Chwynladdwyr ar gyfer Cnydau Gwarchodedig

Mae chwynladdwyr gweddilliol yn hollbwysig ar gyfer rheoli chwyn, ac o'u defnyddio'n gywir, dim ond risg fach iawn o ddifrod sydd i'r cnwd. Hyd yn oed pan fydd difrod (fel arfer o fewn pythefnos o'u defnyddio) bydd y cnwd fel arfer yn tyfu drwy hyn o fewn 6-12 wythnos. Mae cynnyrch unigol yn cynnig rheolaeth dda fel arfer o fandiau cul o chwyn allweddol. Gellir gwella rheolaeth chwyn gweddilliol drwy gymysgu cynnyrch cyflenwol mewn tanciau er mwyn ehangu'r sbectrwm rheoli chwyn. Wrth ystyried diogelwch defnyddio opsiynau chwynladdwyr ar gnydau, fe'ch cynghorir i gadarnhau gydag ymgynghorydd pa gnydau sy'n fwy sensitif. Mae'r rhain yn gweithio yn bennaf drwy ffurfio haen amddiffynnol ar arwyneb y pridd neu dyfu cyfrwng sy'n lladd chwyn wrth iddynt egino.

Opsiynau Rheolaeth Gemegol cyn i Blanhigion Addurniadol Gwarchodedig Cyn dyfu

Cynnyrch	Disgrifiad
Devrinol (napropamide)	Mae'n addas i'w ddefnyddio ar gyfer planhigion addurniadol awyr agored a gwarchodedig er mwyn rheoli gwlydd, creulysiau a glaswellt, er nad yw'n darparu rheolaeth dda ar gyfer berwr chwerw. Dylid ond ei ddefnyddio unwaith y flwyddyn, ar y gyfradd uchaf o 7L/Ha rhwng 1 ^{af} Tachwedd a diwedd Chwefror. Mae hyn yn ffotoddirywio yng ngolau'r haul ac felly dylid ei ddefnyddio ar ddyddiau llwyd,

	brithlawog, rhag iddo ddadelfennu a chael ei olchi i lawr i'r pridd. Os ydych yn ei ddefnyddio ar ddiwrnod sych, gellir dyrhau yn ysgafn (e.e. 10mm) i gynorthwyo treiddiad i'r pridd a lleihau'r risg o ddifrod i'r cnwd (er y dylid osgoi glaw trwm).
Venzar 500SC (lenacil) EAMU 4263/19	I'w ddefnyddio yn yr awyr agored i reoli mwsogl, llyisiau'r afu, berwr chwerw blewog, helygen yr Arctig a gwlydd. Uchafswm dos o 0.4 L/ha (200 g/ha), hyd at uchafswm o 500g/ha bob trydedd flwyddyn. Nid yw'n para am gyfnod hir (hyd at fis) ond mae'n cyflwyno risg isel gan ei fod yn cael ei gymhwyso ar gyfradd isel.
Flexidor (isoxaben)	Mae'n addas i'w ddefnyddio yn yr awyr agored ac ar gyfer planhigion gwarchoddedig er mwyn rheoli gwlydd, berwr chwerw blewog a chorwlydd, er nad yw'n effeithiol iawn ar gyfer rheoli helygen yr Arctig? A chreulysiau. Dim ond unwaith y gellir ei ddefnyddio ar gyfer un cnwd, er bod hyn 4x yn gryfach na'r fformwleiddiad 125 gwreiddiol. Dylech gynllunio i'w ddefnyddio i gyd-fynd â dewisiadau amgen yn eich rhaglen – er enghraifft, mae dewisiadau amgen yn bodoli ar gyfer rhosod, y gellir eu defnyddio ym mis Chwefror, a fyddai'n niweidiol i'w defnyddio yn ddiweddarach yn y tymor, felly cadwch y Flexidor i'w ddefnyddio'n ddiweddarach.
Dual Gold (s-metaloachlor) EAMU 0501/12	Yn addas i'w ddefnyddio ar gyfer planhigion addurniadol awyr agored er mwyn rheoli helygen yr Arctig, glaswellt a chreulysiau (rhannol). Dim ond ym mis Mai y gellir ei ddefnyddio, ond gellir ei gymysgu mewn tanc gyda Flexidor er mwyn ehangu'r sbectrwm rheolaeth. Gall hyn ddifrodi blaenau rhywfaint.
Springbok (dimethenamid- p + metazachlor) EAMU 2108/15	Mae'n addas ar gyfer planhigion addurniadol awyr agored yn unig, a gellir ond ei ddefnyddio gydag offer wedi'i dywys gan dractor hyd at uchafswm dos o 1.66 l/ha. Mae gan hyn weithrediad ehangach na metazachlor yn unig, ond ni allwch fynd at y cnwd am 6 diwrnod ar ôl ei gymhwyso. Wrth drin y cnwd, bydd angen defnyddio menig cnwd am 50 diwrnod.
Stalwart (metazachlor)	Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio hyn ar gyfer cynwysyddion yn wahanol i rai fformwleiddiadau o metazachlor, a gellir ei ddefnyddio o ddiwedd yr haf ymlaen ar ddail sy'n caledu er mwyn osgoi difrod i gnydau hyd at 0.66L/ha yn flynyddol. Gall hyn fod yn driniaeth effeithiol iawn er mwyn trin cnydau ar ôl iddynt egino, mewn cyfuniad â Flexidor.
Sunfire (flufenacet)	Mae'n addas ar gyfer planhigion addurniadol awyr agored a gwarchoddedig, mae hyn yn cynnig rheolaeth dda o weunwellt blynyddol. Dim ond unwaith y gellir ei ddefnyddio, ond gellir ei gymysgu gyda Flexidor er mwyn gwella ystod ei weithrediad. Mae'n ymgeisydd da ar gyfer gweunwellt blynyddol

Opsiynau Rheolaeth Gemegol mewn Planhigion Addurniadol Maes

Mae'r opsiynau chwynladdwyr cyswllt wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf felly, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau, mae angen i chi ddarllen labeli cynnyrch yn ofalus ac ystyried yr amodau wrth eu defnyddio. Ar gyfer chwyn llydanddail, gall Shark fod yn opsiwn da (o dan EAMU 0099/16) ond nid yw'n effeithiol ar gyfer chwyn glaswellt neu Greulysiau. Mae Finalsan/Kouton Gold (asid pelargonig) yn opsiwn arall, ond mae angen i chwyn fod yn tyfu. Gellir ystyried Dow Shield ond dylid osgoi llif neu gyswllt gyda'r cnwd ac mae'n well ei ddefnyddio fel triniaeth yn y fan a'r lle ar gyfer Creulysiau ac Ysgallen y maes. Gellir defnyddio Starane Hi Load HL o dan EAMU (1268/17) er mwyn targedu chwyn sy'n tyfu a thatws hadyd ond gall hyn fod yn anwadal mewn tywydd poeth ac effeithio'r cnwd. Mae Glyphosate ar gael o dan enwau cynnyrch amrywiol, ond dylid ei ddefnyddio'n ofalus. Mae'n niweidiol iawn i gnydau Rhosynnol, a gall achosi difrod trychinebus a pharhaol i blanhigion. Gellir ei ddefnyddio'n effeithiol i reoli chwyn blynyddol a lluosflwydd cyn plannu a thyfu. Ar gyfer rheoli glaswellt cyswllt, mae Fusilade Max (o dan EAMU), Laser a glyphosate yn opsiynau da ar gyfer rheoli. Yn ogystal â'r chwynladdwyr gweddilliol a nodir uchod, gellir defnyddio'r canlynol ar gyfer planhigion addurniadol maes.

Cynnyrch	Disgrifiad
Sencorex Flow (metribuzin) EAMU 3099/19	Gall Sencorex fod yn effeithiol a pharhaus, ond gall cyfraddau uchel ohono fod yn niweidiol (er bod profiad yn dangos y dylai'r cnwd adfer) ac mae'n driniaeth tymor segur dda ar goed ar gyfraddau o hyd at 1.15 L/ha, ond dylid defnyddio cyfraddau is ar rosod. Gwneir y defnydd gorau ohono drwy ei gymysgu mewn tanc gyda chwynladdwyr gweddilliol eraill, er enghraifft Stomp Aqua a Sunfire er mwyn ehangu'r sbectrwm rheoli chwyn. Mae'r EAMU yn hyblyg ac felly nid yw wedi'i gyfyngu i un defnydd os ydych yn defnyddio dos is sy'n addas ar gyfer y cnwd.
Stomp Aqua (pendimethalin) EAMU 2919/09	Mae'n ddefnyddiol i reoli ystod o chwyn llydanddail a glaswellt (gan gynnwys rhywfaint o weithgarwch defnyddiol yn erbyn Troed yr Ŵydd), ond mae bylchau ar y sbectrwm rheoli chwyn. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ei gymysgu mewn tanc gyda chwynladdwyr eraill, er enghraifft Sencorex Flow a Sunfire. Mae'n driniaeth tymor segur ddiogel ar gyfer ystod o gnydau. Mae Stomp Aqua yn ddefnyddiol hefyd fel triniaeth cyn-egino mewn gwelyau hadau coed. Dylid ystyried amseriad ei ddefnyddio oherwydd dim ond unwaith y flwyddyn y gellir ei ddefnyddio.
Samsung Extra 6% (nicosulfuron) EAMU 1054/14	Mae'n addas i'w ddefnyddio mewn cnydau gaeafu hyd at ganol mis Mehefin, ac mae'n fwy parhaus na Dual Gold, er y gallai cymysgu'r ddau mewn tanc ehangu parhad a'r sbectrwm rheoli chwyn. Dim ond yn ystod mis Mai y gellir defnyddio Dual Gold – felly mae cymysgu Samsung Extra 6% gyda Dual Gold mewn tanc yn cyfyngu ei ddefnydd i fis Mai. Gall y ? fod yn ddefnyddiol i'r cnwd, ac felly mae'n debygol o fod yn fwy diogel ei ddefnyddio fel chwistrell rhwng rhesi.
Goltix 70 SC (metamitron) EAMU 1175/15	Mae hyn yn cael effaith cyn ac ar ôl i hadau ymddangos i reoli chwyn pwysig fel glaswellt a chreulysiau, a gellir ei ddefnyddio wrth greu gwelyau hadau. Mae gan Goltix 70 SC barhad cymharol isel yn y pridd.
Betanal Flow EAMU 2824/08 Corzal SC EAMU 0376/18 (phenmedipham)	Mae'r cynnyrch hyn ar gael er mwyn rheoli eginblanhigion chwyn bychan ar ôl iddynt eginu mewn cnydau. Gall y rhain achosi i ddail droi'n felyn dros dro. Gellir ei ddefnyddio hyd at 2-3 gwaith y flwyddyn yn ôl y cynnyrch a'r gyfradd a ddefnyddir.

Opsiynau Rheolaeth

Yn ogystal â rheolaeth gemegol, mae opsiynau rheolaeth ddiwylliannol eraill ar gael. Gall defnyddio domwellt potiau yn syth ar ôl potio leihau pwysau chwyn, yn arbennig mwsogl a llyisiau'r afu yn tyfu ar arwyneb y cyfrwng. Gellir defnyddio chwynladdwyr gweddilliol hefyd gyda domwellt oherwydd byddant yn symud drwy ddomwellt rhisgl i arwyneb y swbstrad. Mae ystod o gynnyrch ar gael gan gynnwys tomwellt cynwysyddion (Klassman), Haen Uchaf Potiau (Sinclair) ac Ecorisgl (Melcourt). Mae rhai o'r cynnyrch hyn yn cynnwys asiant glynol sy'n cael ei weithredu drwy ddyfrhau ar ôl potio, gan ludo'r tomwellt at ei gilydd er mwyn helpu i'w gadw yn ei le o gymharu â rhisgl amrwd yn unig. Mae haen uchaf potiau yn atal hadau rhag cyrraedd arwyneb y swbstrad er mwyn atal eginiaid a gwreiddio. Gall hyn wella'r defnydd o ddŵr hefyd drwy atal y swbstrad rhag sychu.



Rheoli Chwyn gyda Thrydan

Mae technoleg arloesol wedi'i datblygu gan ddefnyddio offer chwynnu trydan. Mae cyswllt ffisegol gyda'r chwyn yn achosi amhariad biolegol drwy gludo cerrynt drwy'r chwyn sy'n achosi iddo wywo ac atal iddynt dyfu, neu'n achosi iddynt farw. Mae'r rhain yn dangos yr effaith systemataidd orau yn erbyn planhigion lluosflwydd trwchus fel ysgallen y maes. Mae dull chwynnu trydan yn creu llai o ynni na chwynnu â fflamau a llai o ddifrod cyfochrog na chwalwr chwyn, er bod angen cyswllt uniongyrchol â'r chwyn ar y rhain er mwyn iddynt weithio. Gellir gosod y systemau ar dractorau ar gyfer ardal trin fawr, neu eu defnyddio â llaw ar gyfer triniaethau yn y fan a'r lle. Mae dyfais llaw ar gael yn fasnachol gan ubiquitek fel 'Rootwave.pro' (www.rootwave.com). Mae prototeipiau maes ar gyfer garddwriaeth yn cael eu datblygu yn awr gan nifer o gyflenwyr er bod gan Zasso system eisoes i'w gosod ar dractor sydd ar gael yn yr Almaen. Mae'r dechnoleg newydd hon yn dangos posibiliadau cryf i reoli chwyn mewn dulliau organig, heb gemegau, yn y dyfodol.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio unrhyw o gemegau diogelu cnydau yn unol â'r argymhellion ar y labeli, ac mae angen eu darllen cyn chwistrellu. Mae'n bosibl na fydd labeli rhai o'r chwynladdwyr sydd wedi'u disgrifio yn y nodiadau hyn yn cefnogi eu defnydd ar gnydau, ond maent yn cael eu caniatáu drwy EAMU (Ymestyn Awdurdod ar gyfer Mân Ddefnydd) yn y DU, o dan 'Y Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, y defnyddiwr sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r chwynladdwr ac nid yw Tyfu Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriad at gymeradwyaeth ar labeli a'r EAMU ar gyfer defnyddio chwynladdwyr ar gnydau ? ac yn gywir ar adeg ysgrifennu. Gall y rhain newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl unrhyw adeg. Y tyfwr sy'n gyfrifol am wirio cymeradwyaeth cyn defnyddio chwynladdwyr. Os bydd amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd cymwys BASIS – mae'r cyngor hwn ar gael am ddim i dyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor ar gael hefyd drwy e-bost/dros y ffôn.